Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Bil Trawsblannu Dynol (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Trawsblannu Dynol (Cymru)** ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cafodd y Bil ei gyflwyno gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar **3 Rhagfyr 2012**, ac yna cafodd ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ("y Pwyllgor") i graffu arno yng Nghyfnod 1. Ar ôl y newid ym mhortffolios y Gweinidogion ym **mis Mawrth 2013**, trosglwyddwyd cyfrifoldeb yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil i Mark Drakeford, a hynny ers 18 Mawrth 2013.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Mawrth 2013**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis. Cafodd y Bil ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 ar ôl dadl ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **16 Ebrill 2013**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar 17 Ebrill. Cafodd 42 o welliannau eu cyflwyno, 21 ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau a'u gwaredu yn ei gyfarfod ar **22 Mai 2013**.

Mae gwybodaeth bellach am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil**, sydd wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Y gwelliannau a gytunwyd yng Nghyfnod 2

Cafodd pob un o welliannau'r Llywodraeth eu cytuno. O'r 21 o welliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau, cafodd un ei gytuno, ni chytunwyd ar wyth ohonynt, cafodd tri eu tynnu'n ôl, ni chynigiwyd un ohonynt, a methodd wyth arall.

Dyma grynhoi'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r Bil:

### Cydsynio i roi organau

- Roedd **gwelliannau 1 a 4** yn darparu na ddylai ffurfiau newydd a chyfansawdd o drawsblannu gael eu cynnwys yn rhan o'r drefn cydsyniad tybiedig. Yn lle hynny, byddai'r trefniadau o ran cydsynio i'r mathau hyn o weithgareddau trawsblannu yn cael eu nodi mewn rheoliadau yn y dyfodol, o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol. Mae hyn yn golygu y bydd modd bwrw ymlaen â dulliau newydd o drawsblannu ar yr amod bod y cydsyniad iddynt wedi'i ddatgan. Roedd hyn o ganlyniad i argymhelliad 17 y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.
- Roedd **gwelliant 14** yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw god ymarfer a gyhoeddir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol roi canllawiau ymarferol o ran sut i asesu'r wybodaeth a roddir gan berthnasau a chyfeillion yn unol â hierarchaeth o wybodaeth yn hytrach na hierarchaeth o berthnasoedd. Bwriad hynny oedd helpu clinigwyr i benderfynu, pan na fyddai'r wybodaeth yn cyd-daro, pa ddarn o wybodaeth sydd fwyaf tebygol o fod yn ddilys yng nghyd-destun ystyried a ddylid trawsblannu organau person marw.
- Roedd **gwelliant 36**, yn enw Darren Millar AC, yn ymestyn y maen prawf ynghylch y cyfnod preswylio o'r chwe mis a gynigiwyd i 12 mis. Felly, rhaid bod rhywun wedi preswylio fel arfer yng Nghymru am gyfnod o 12 mis cyn bod modd tybio eu cydsyniad.

## Cynrychiolwyr penodedig

- Roedd **gwelliannau 2, 3 a 5 i 10** yn newid yr achosion a nodir yn y tablau yn adrannau 4 a 5 o'r Bil i'w gwneud yn glir y byddai'r cydsyniad yn pasio i'r person nesaf yn y rhestr o berthnasoedd cymwys pe na bai modd i'r cynrychiolwr penodedig weithredu.
- Roedd **gwelliant 11** yn nodi, os na fydd yn rhesymol ymarferol i gysylltu â chynrychiolydd penodedig o fewn yr amser sydd ar gael, y gall clinigwyr ddod i'r casgliad bod y cynrychiolydd hwnnw yn methu â rhoi cydsyniad.

Roedd y gwelliannau hyn yn rhoi argymhelliad 7 adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar waith.

## Rhoi organau oedolion byw

- Roedd **gwelliant 12** yn gweithredu'r ymrwymiad a roddwyd gan y Gweinidog iechyd blaenorol, sef Lesley Griffiths AC, i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Dywedodd mai'r unig bryd y câi organau eu rhoi mewn achosion penodol yn ymwneud ag oedolion byw oedd ar sail y prawf a oedd hynny er lles pennaf y rhoddwr posibl. Bydd yr amgylchiadau pan fydd y sail honno'n gymwys yn cael eu nodi mewn rheoliadau, sydd i'w gwneud o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol.

## Is-ddeddfwriaeth

Roedd y gwelliannau yng ngrŵp 8 i gyd yn gweithredu ymrwymiadau a roddwyd gan y Gweinidog yn ystod y ddadl Cyfnod 1 yn y Siambr, a'r rheini ar sail argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

- Roedd **gwelliant 17** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw Orchymyn a geisiai newid lle un o'r perthnasoedd cymwys ar y rhestr a nodir yn adran 27(4) o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004*. Gwneir unrhyw Orchymyn o'r fath o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol, felly.
- Roedd **gwelliant 18** yn ymwneud â chod ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. O dan Ddeddf 2004, mae'r cod yn dod o dan y weithdrefn negyddol yn Senedd San Steffan, ond roedd y gwelliant yn darparu y byddai cod o'r fath yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad.
- Roedd **gwelliant 20** hefyd yn darparu y byddai 'r weithdrefn uwchgadarnhaol yn gymwys i unrhyw reoliadau neu Orchmynion sy'n ymwneud ag: organau sydd i'w heithrio o'r drefn cydsyniad tybiedig (hynny yw, ffurfiau newydd a chyfansawdd o roi organau); pobl nad ydynt yn cael gweithredu fel cynrychiolwyr penodedig; a nodi'r sawl sy'n cael bod ar restr y perthnasoedd cymwys.

## Ymrwymiadau'r Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog i ystyried a thrafod rhai materion penodol cyn y ddadl yng Nghyfnod 3. Dyma'r manylion perthnasol:

## Ymgyrch gyfathrebu

- Cyflwynodd Darren Millar AC **welliant 25** yn gofyn am ymgyrch flynyddol i hyrwyddo trawsblannu organau, ond tynnodd y gwelliant yn ôl yn dilyn ymrwymiad gan y Gweinidog y byddai'n cyflwyno gwelliant tebyg yng Nghyfnod 3. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried pwyntiau'r Aelodau ynghylch rhoi gofyniad ar wyneb y Bil i'r Gweinidog roi datganiad yn y Cyfarfod Llawn bob blwyddyn am y cynnydd a wnaed o dan y Bil.
- Cyflwynodd Darren Millar AC **welliannau 28** a **29** hefyd, a fyddai wedi'i gwneud yn ofynnol i bobl enwebu a phenodi dim ond un cynrychiolwr, yn hytrach nag un neu fwy. Ymrwymodd y Gweinidog i ystyried y mater ymhellach ar y cyd â'r Adran Iechyd, gyda'r bwriad o gyflwyno gwelliant tebyg yng Nghyfnod 3.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth. Dechreuodd Cyfnod 3 ar 23 Mai 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Nid yw'r dyddiad ar gyfer cynnal trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn wedi'i gytuno eto. Unwaith y bydd wedi'i gytuno, bydd yn ymddangos yn y **Datganiad a chyhoeddiad busnes**, a chaiff ei gyhoeddi ar **dudalen y Bil**.

Rhaid cyflwyno unrhyw welliannau sydd i'w hystyried yng Nghyfnod 3 o leiaf bum niwrnod cyn y diwrnod y cânt eu hystyried gan y Cynulliad. Dylid cyflwyno gwelliannau drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth (**legislationoffice@cymru.gov.uk**).

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaeth, Sarah Beasley (**sarah.beasley@cymru.gov.uk**).